

Mynediad Uned 28 y gogledd – Adolygu'r cwrs ac edrych ymlaen

Nod: Adolygu lefel Mynediad

Geirfa

campfa ffurflen(ni)	gym form(s)	rownd	round (gêm, diod)
------------------------	----------------	-------	-------------------

trio	to try	tynnu	to pull, take off, take out
------	--------	-------	-----------------------------

ola perffaith	last perfect	tal ail-law	tall second hand
------------------	-----------------	----------------	---------------------

dolur gwddw	sore throat	o gwbl	at all
gwir neu gau	true or false	tramor	abroad, overseas
llongyfarchiadau	congratulations	yn barod	already

Geiriau pwysig i mi

.....		
.....		
.....		

Gêm o gardiau

				
A	Sut mae'r tywydd heddiw?	Lle aethoch chi i'r ysgol?	Be wnaethoch chi cyn y dosbarth heddiw?	Sut oedd y tywydd ddoe?
2	Be wnaethoch chi wythnos diwetha?	Pryd wnaethoch chi godi bore 'ma?	Be gest ti i frecwast heddiw?	Be wnaethoch chi ddoe?
3	Lle dach chi wedi bod yn Ne Cymru?	Lle aethoch chi ar eich gwyliau diwetha chi?	Be mae rhaid i chi wneud yfory?	Dach chi wedi gweld Pobol y Cwm?
4	Gofynnwch gwestiwn i mi, os gwelwch chi'n dda!	Dach chi'n mynd i gampfa?	Be oeddech chi'n hoffi wneud pan oeddech chi'n blentyn?	Be mae rhaid i chi wneud heno?
5	Sgynnoch chi anifail anwes?	Be ydy'ch gwaith chi?	Efo pwy dach chi'n siarad Cymraeg?	Sgynnoch chi deulu?
6	Be fyddwch chi'n wneud dros y penwythnos?	Sut fydd y tywydd yn Sawdi-Arabia yfory?	Be dach chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr?	Be wnaethoch chi brynu mewn siop ddiwetha?
7	Be weloch chi ar y teledu ddiwetha?	Be gest ti i ginio dydd Sul?	Faint o'r gloch dach chi'n mynd i'r gwely fel arfer?	Lle oeddech chi nos Galan ddiwetha?
8	O le dach chi'n dŵad yn wreiddiol?	Dach chi'n hoffi wyau Pasg siocled?	Be dach chi'n hoffi wneud ar ddydd Sadwrn?	Dach chi'n edrych ar y newyddion?
9	Pwy ydy dy hoff actor di?	Be ydy mēc eich ffôn chi?	Be ydy dy hoff air Cymraeg di?	Lle dach chi'n dysgu Cymraeg?
10	Be wnaethoch chi ar ôl i chi adael yr ysgol?	Faint o'r gloch ydy hi nawr?	Pwy ydy dy gymdogion di?	Lle dach chi'n byw?
Jac	Be ydy lliw dy lygaid di?	Be dach chi'n hoffi yfed mewn caffi?	Be ydy dy hoff ffilm di?	Be wnaethoch chi neithiwr?
Brenhines	Lle dach chi isio mynd ar wyliau?	Be ydy enw eich ffrind gorau chi?	Faint o'r gloch dach chi'n codi fel arfer?	O le mae eich teulu chi'n dŵad yn wreiddiol?
Brenin	Lle wyt ti'n hoffi mynd am dro yng Nghymru?	Dach chi'n defnyddio'r trê'n yn aml?	Dach chi wedi bod yn lwerddon?	Be dach chi'n hoffi yfed mewn parti?

Efo'ch partner, parwch hanner o'r grid cynta â hanner o'r grid nesa.

Rhaid	Nyrs	Ydy'r plant yn hapus?	Dw i'n edrych	Be ydy dy	Dw i'n mynd i'r
Mae'r ferch yn (3)	Mi fydd hi'n	Mae'r babi'n un	Dyma fy	Rhaid i	Mae hi'n chwarter
Mae'r trê'n am	Mae'r hogyn yn (4)	Mae'r swyddfa'n	Dw i'n gweithio yn	Sut	Mi wnaeth o
Wnaethon nhw ddim	Pwy	Faint	Dw i'n gwrando	Wnaeth	Be wnest
Roedd hi'n	Be ydy eich	Mae Aled yn gweithio	Mae hi'n hanner awr	Pryd	Lle
*****	*****	*****	*****	*****	*****
bedair oed	i bedwar	dri o'r gloch	i mi brynu bara	oer ddoe	waith di?
brysur iawn heddiw	mae swper?	mae'r teulu?	enw chi?	ydy hi	dair oed
ar y teledu	wedi dau	mae'r ysgol?	ydy'r pris?	chi fynd	wyntog yfory
yr ysbyty	mewn banc	ydy'r actores?	gwaith rŵan	nheulu i	ar y radio
Ydyn	y plant gysgu?	mynd i'r gêm	fynd i'r parti	oed	ti neithiwr?

Gwranddo a darllen – Yn y parc

Enw	Pam maen nhw yn y parc?	Pryd maen nhw'n mynd i'r parc?	Pa anifail anwes sgynnyn nhw?
Mair	1	2	3
Gareth	4	5	6
Enw	Pam roedden nhw yn yr ysbyty?	Lle maen nhw'n mynd ym mis Hydref?	
Mair	7	8	
Gareth	9	10	





- Mair: Helô Gareth, sut wyt ti ers talwm?
- Gareth: Dw i'n iawn, diolch, Mair. Rwyt ti'n edrych yn dda. Wyt ti'n rhedeg yn aml?
- Mair: Ydw, dw i'n trio rhedeg bob dydd, ond dim ond ar y penwythnos dw i'n dŵad yma. Dw i'n mynd i'r gampfa yn y gwaith o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Gareth: Dw i'n dŵad yma bob dydd. Mae'n lle braf i fynd â'r ci am dro. Mae o'n mwynhau rhedeg ar ôl y bêl.
- Mair: Ydy wir. Helô, Pero.
- Gareth: Sgen ti anifail anwes?
- Mair: Dim rŵan. Roedd gynnon ni gath pan oedd y plant yn fach.
- Gareth: Felly pam wyt ti'n rhedeg bob dydd, Mair?
- Mair: Dw i'n ymarfer - dw i'n rhedeg hanner marathon Caerdydd ym mis Hydref.
- Gareth: Da iawn ti! Wyt ti'n codi arian at rywbeth?
- Mair: Ydw - at ysbyty Abercastell. Maen nhw angen arian drwy'r amser.
- Gareth: Roedd rhaid i mi fynd i Ysbyty Abercastell pan o'n i'n blentyn. Roedd rhaid i mi gael tynnu fy nhonsils. Roedd y bwyd yn ofnadwy ond roedd y nyrsys yn glên iawn - mi wnaethon nhw roi hufen iâ i mi un diwrnod. Roedd gen i ddolur gwddw ar ôl i mi gael tynnu fy nhonsils!
- Mair: Mi wnes i dorri fy nghoes yn chwarae rygbi yn yr ysgol. Roedd rhaid i mi gael platar yn yr ysbyty ond wnes i ddim aros dros nos.
- Gareth: Dyma ti - deg punt, achos dw i'n mynd ar wyliau ym mis Hydref.
- Mair: Diolch yn fawr. Lle wyt ti'n mynd y tro 'ma?
- Gareth: I Sbaen, wrth gwrs, fel arfer. A dw i'n mynd yn y car, felly dw i'n medru mynd â Pero hefyd!
- Mair: Braf iawn! Hwyl i ti, a diolch am yr arian. A hwyl fawr i ti ar dy wyliau, Pero!
- Gareth: Pob hwyl yn y ras, Mair.



Disgrifiwch be sy yn y llun.
Beth dach chi'n wneud i ymlacio?

Dach chi'n cadw'n heini? Sut?



Be oedd rhaid i ti wneud bore 'ma?

What did you have to do this morning?

Roedd rhaid i mi olchi'r llestri.

I had to wash the dishes.

Roedd rhaid i mi ateb ebyst.

I had to answer emails.

Roedd rhaid i mi fynd â'r biniau allan.

I had to take the bins out.

Roedd rhaid i mi fynd â'r ci am dro.

I had to take the dog for a walk.



Cyn y dosbarth nesa...

Before the next class...

Mi fydd rhaid i ni edrych ar S4C.

We will have to watch S4C.

Mi fydd rhaid i ni wrando ar Radio Cymru.

We will have to listen to Radio Cymru.

Mi fydd rhaid i ni siarad Cymraeg mewn siop.

We will have to speak Welsh in a shop.

Mi fydd rhaid i ni gyfarfod ffrindiau i siarad Cymraeg.

We will have to meet friends to speak Welsh.

Cymraeg

Gwrando a darllen – Diwedd y cwrs



Tiwtor: Reit, dyma'r dosbarth ola. Llongyfarchiadau i bawb! Dan ni wedi gorffen y cwrs!

Dosbarth: Hwrê!

Tiwtor: Cyn i ni fynd i'r dafarn i ddathlu, mi fydd rhaid i ni wneud un peth bach. Rhaid i chi lenwi ffurflen am y cwrs.

Dosbarth: Oes rhaid i ni?

Tiwtor: _____! Gawn ni ymarfer bach yn gynta? Cwestiwn un. Dach chi wedi mwynhau'r cwrs?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Dach chi'n dŵad yn ôl i wneud y cwrs nesa?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Oedd y cwrs yn ddiddorol?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Oeddech chi'n hapus efo popeth?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Wnaethoch chi ddysgu'r treigladau yn berffaith?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Fyddwch chi'n gwneud y cwrs Sylfaen nesa? |

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Dach chi'n mynd i ymarfer eich Cymraeg cyn y cwrs nesa?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Fyddwch chi'n edrych ar S4C?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Fydd Radio Cymru yn y car bob dydd?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Reit – dach chi isio i mi ddeud popeth eto?

Dosbarth: _____ wir! (x)

Tiwtor: Sgynnoch chi gwestiwn?

Dosbarth: _____ wir! (x)

Tiwtor: Dach chi isio taflen am y cwrs nesa?

Dosbarth: _____, wrth gwrs.

Tiwtor: Da iawn chi – dw i'n mynd i brynu'r rownd gynta i bawb!

Dyma Siân.

byw: Prestatyn
teulu: 3 hogyn
gwaith: deintydd
ddoe: i'r pwll nofio
amser sbâr: (llun/picture)



Efo'ch partner, atebwch y cwestiynau.

Lle mae Siân yn byw?

Sgynni hi deulu?

Be ydy gwaith Siân?

Lle aeth Siân ddoe?

Be mae hi'n hoffi wneud yn ei hamser sbâr?

Gwrando a darllen - Yn y siop

Gwrandewch ar y sgwrs ac atebwch y cwestiynau.

Gwir neu gau:

Mi fydd Anti Sali yn saith deg oed dydd Sadwrn.

Mi fydd Tomos yn saith oed dydd Sadwrn.

Mae Carys isio prynu cacen i Anti Sali.

Mae Aled isio prynu trê bach i Tomos.

Cyfieithwch:

birthday cake

afternoon tea

birthday present

T-shirt

Dach chi'n medru meddwl am rywbeth arall?

cacen	_____	te	_____
anrheg	_____	crys	_____

Carys: Bore da, Aled. Sut wyt ti?

Aled: Helô, Carys. Dw i'n iawn, diolch.

Carys: Ga'i ofyn cwestiwn i ti? Pa gerdyn wyt ti'n hoffi? Yr un efo balŵns pinc, 'ta'r un yma efo cacen pen-blwydd?

Aled: Dw i ddim yn siŵr. I bwy mae'r cerdyn?

Carys: Mae chwaer fy mam, Anti Sali, yn wyth deg oed dydd Sadwrn. Dan ni'n mynd â hi i Westy Portmeirion i gael te prynhawn.

Aled: Bendigedig! Rhaid i ti ddewis y cerdyn efo'r gacen, dach chi'n siŵr o gael cacen arbennig iawn ym Mhortmeirion!

Carys: A deud y gwir, dw i wedi coginio un yn barod. Mae Anti Sali yn hoffi cacen ffrwythau efo digon o frandi – a dw i'n edrych ymlaen at fwyta'r gacen hefyd.

Aled: Wel, wyt ti'n medru helpu efo dewis anrheg pen-blwydd i Tomos?

Carys: Dy nai di? Be mae o'n hoffi wneud?

Aled: Mae o'n hoffi trenau. Mae'r llyfr yna'n edrych yn dda, ond mae o dipyn bach yn anodd.

Carys: Be am y crys T yna? Yr un efo trêen glas?

Aled: Perffaith! Glas ydy ei hoff liw o. Wyt ti'n medru gweld un i hogyn saith oed? Mae o'n cael ei ben-blwydd o'n chwech oed dydd Sadwrn, ond mae o'n fachgen tal iawn.

Carys: Fel ei Wncl Aled o! Dyma fo, crys T i blentyn saith oed.

Aled: Gwych, diolch! Mwynha'r te prynhawn.



Siaradwch

Pryd oedd y tro diwetha wnaethoch chi fynd i barti?

Parti pwy? Lle oedd y parti?




Fyddwch chi'n dathlu rhywbeth yn y misoedd nesa?

Be? Lle? Sut? Efo pwy?

Robin Radio

a) Atebwch:

Lle mae Robin yn mynd?
Pam?
Pam mae Anti Mair yn mynd hefyd?



b) Gwrandewch am:

Ga i air? _____ *Can I have a word?*
Paid â bod yn swil. _____ *Don't be shy.*
Gawn ni weld. _____ *We shall see.*



c) Cyfieithwch:

Can you come here?

What am I going to do?

It will be terribly boring.

Syniad da – Mynd i amgueddfa!

Mae Amgueddfa Cymru (*the National Museum of Wales*) yn deulu o saith amgueddfa – yn Llanberis, Dre-fach, Abertawe, Sain Ffagan, Caerdydd, Caerllion a Blaenafon. Dach chi wedi bod i un? Wnaethoch chi siarad Cymraeg? Mae 'na lawer o staff Amgueddfa Cymru yn siarad Cymraeg, felly dach chi'n medru mwynhau diwrnod allan a siarad Cymraeg. Mae 'na adnoddau (*resources*) i helpu dysgwyr hefyd: e.e.

Llwybrau Llafar Sain Ffagan - [Llwybrau-Llafar.pdf \(amgueddfa.cymru\)](#)

Pwll Mawr - [Pecyn adnoddau rhyngweithiol i diwtoriaid loywi iaith | Museum Wales \(amgueddfa.cymru\)](#)

Yr Amgueddfa Wlân - [Gwau Geiriau Pecyn adnoddau i diwtoriaid Cymraeg | Museum Wales \(amgueddfa.cymru\)](#)

Mae mynediad am ddim hefyd!